



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Abercaseg
Bethesda
Bangor
Gwynedd
LL57 3PL**

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2012

gan

Mr Mervyn Lloyd Jones

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

Ⓜ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Lleolir Ysgol Fabanod Abercaseg ym mhentref Bethesda a daw'r disgyblion o'r pentref a'r ardal gyfagos. Fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Sir Gwynedd. Mae'r ardal yn Gymreig ei hiaith a'i diwylliant ac mae bron i 70% y plant yn dod o gartrefi ble siaredir y Gymraeg fel iaith gyntaf.

Gellir disgrifio'r ardal fel un sydd heb fod yn ffyniannus nac ychwaith o dan anfantais economaidd.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 7 oed. Mae 98 o ddisgyblion llawn-amser ar y gofrestr ynghyd â 23 o blant meithrin rhan-amser. Fe'u haddysgir gan bedair athrawes llawn-amser a dwy ran-amser. Maent yn cynrychioli'r ystod lawn o allu ac mae eu cyraeddiadau yn amrywio tipyn pan ddechreuant yn yr ysgol.

Derbynnir plant i ddosbarth meithrin yr ysgol yn rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn i'r dosbarth derbyn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair. Mae niferoedd y disgyblion wedi aros yn gyson ers yr arolygiad diwethaf yn 2006.

Mae 22 o ddisgyblion wedi eu cofnodi gan yr ysgol fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, dau ohonynt ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ganran o ddisgyblion (19%) sydd â'r hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Sir Gwynedd a Chymru.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Ionawr 2006. Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn Medi 2008.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Abercaseg yn 2011-12 yn golygu mai'r gyllideb yw £3336 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Yng Ngwynedd yw £7732 a'r lleiafswm yw £2745. Mae Ysgol Abercaseg yn safle 57 o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Rhagorol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Rhagorol

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Abercaseg yn rhagorol oherwydd:

- bod perfformiad yr ysgol yn gyson uwch nag ysgolion tebyg;
- bod canran uchel o'r disgyblion yn cyrraedd tu hwnt i'r lefel disgwylidig;
- mae bron bob un o'r disgyblion yn cyflawni ac yn gwneud cynnydd da a rhagorol yn eu gwersi;
- bod yr ysgol yn darparu ystod dda iawn o brofiadau dysgu diddorol;
- bod dulliau addysgu effeithiol iawn yn cael effaith bositif ar fedrau cyfathrebu'r disgyblion;
- ethos gofalgaf, cynhwysol, a hapus sy'n sicrhau fod llais y plentyn yn cael lle amlwg yn holl waith a bywyd yr ysgol; a
- safon uchel yr hyfforddiant a ddarperir ar gyfer holl aelodau'r staff a rhieni sy'n cefnogi'r addysgu.

Rhagolygon gwella

Mae gan yr ysgol ragolygon gwella rhagorol oherwydd:

- arweinyddiaeth gref ac effeithiol iawn y pennaeth a'r llywodraethwyr sydd yn creu'r amodau gorau posibl i bob unigolyn ddatblygu a ffynnu;
- parodrwydd yr ysgol i chwilio'n gyson am ffyrdd newydd ac arloesol o wella'r ddarpariaeth;
- bod gweithgareddau monitro da iawn yn sicrhau bod arfarniadau o bob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol wedi'u selio ar dystiolaeth uniongyrchol, gynhwysfawr a chywir;
- bod arfer rheolaidd o fyfyrion ac arfarnu effaith yr addysgu ar safonau a lles y disgyblion; a
- bod yr ysgol wedi cynnal a gwella safonau uchel ers yr arolygiad diwethaf.

Argymhellion

Dylai'r ysgol:

- A1 sicrhau fod mwy o ddisgyblion yn cyflawni ar y lefel uwch yng ngwyddoniaeth; a
- A2 cryfhau'r cysylltiad rhwng canfyddiadau'r broses hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella deilliannau.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i gynhyrchu astudiaeth achos ysgrifenedig, i ddisgrifio'r arferion rhagorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Rhagorol

Safonau: Rhagorol

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol mewn perthynas â'r lefel disgywylidig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, i ddisgyblion saith mlwydd oed (y dangosydd pwnc craidd), yn uwch na chyfartaledd ysgolion yn yr un teulu a chyfartaledd Cymru.

Nodwedd arbennig o'r ysgol yw'r ganran uchel sy'n cyrraedd tu hwnt i'r lefel ddisgywylidig. Dros y pedair blynedd diwethaf mae'r ganran sy'n cyflawni'r lefel uwch yn y Gymraeg a mathemateg wedi bod yn sylweddol uwch na chyfartaledd ysgolion yn yr un teulu a chyfartaledd yn y Gymraeg a mathemateg. O'i gymharu gydag ysgolion tebyg o ran y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae'n gosod yr ysgol ymysg y 25% uchaf yng Nghymru. Mae'r ganran sy'n cyrraedd y lefel uwch yng ngwyddoniaeth wedi gostwng yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae llyfrau gwaith unigol a llyfrau gwaith dosbarth rhan fwyaf y disgyblion yn dangos cynnydd ardderchog yn ystod eu hamser yn y Cyfnod Sylfaen, ac mae'r haen uchaf eu gallu yn cyflawni gwaith ymestynnol o ansawdd uchel. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus a gwybodus iawn wrth ddwyn i gof a thrafod eu gwaith blaenorol. Maent yn defnyddio eu medrau allweddol a'u medrau meddwl yn greadigol a dychmygus iawn ar draws sawl maes dysgu.

Mae safonau a'r cynnydd a wna rhan fwyaf y disgyblion ar draws y Cyfnod Sylfaen yn y medrau allweddol siarad a gwrando yn dda iawn. Mae medrau darllen cynnar llawer o'r disgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn blwyddyn 2 mae rhan fwyaf wedi datblygu medrau darllen da gyda'r haen uchaf eu gallu yn darllen gyda rhuglder, cywirdeb a mynegiant ardderchog. Ysgrifenna'r rhan fwyaf at bwrpasau ac mewn arddulliau gwahanol gyda medrusrwydd cynyddol a cheir enghreifftiau da o waith ysgrifennu ymestynnol. Mae medrau cyflwyno a llawysgrifen y rhan fwyaf o ddisgyblion erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen yn dda iawn.

Mae'r holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda yn erbyn targedau personol ac yn gwneud cynnydd da yn unol â'u gallu, diddordebau a chyflawniad blaenorol.

Mae medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y meysydd dysgu yn dda.

Mae dilyniant a chynnydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y Gymraeg yn dda iawn ac yn un o gryfderau'r ysgol. Mae medrau Cymraeg y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg a'r hwyrdyfyddiaid yn datblygu'n gyflym ac yn effeithiol iawn, ac maent yn llwyddo i gyrraedd y lefel a ddisgwylwyd, sef lefel 2 neu well erbyn diwedd blwyddyn 2.

Lles: Rhagorol

Mae medrau personol, cymdeithasol a medrau bywyd y disgyblion yn datblygu'n dda iawn ac yn eu paratoi'n ardderchog ar gyfer eu dyfodol.

Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ymwybyddiaeth dda o faterion iechyd a diogelwch. Maent yn deall yr angen i ymgymryd ag ymarfer corff ac i fwyta'n iach. Roedd bob rhiant yn datgan fod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol.

Mae hyder rhan fwyaf yn datblygu'n gyflym wrth iddynt ddewis eu gweithgareddau dysgu ac maent yn ymroi'n frwdfrydig iddynt ac yn eu mwynhau. Maent i gyd yn gwrtais iawn ac yn parchu ei gilydd. Mae llawer yn gweithio'n hyderus yn annibynnol ac yn cyfranogi'n dda iawn wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau am yr hyn y maent am ddysgu. Mae eu sgiliau cydweithio, datrys problemau a'u medrau cymdeithasol i gyd yn datblygu'n ardderchog. Mae llawer o ddisgyblion yn gwella eu medrau cymdeithasol a bywyd yn llwyddiannus iawn drwy gymryd rhan yn yr amrywiol weithgareddau ar ôl ysgol.

Mae ymddygiad bron bob un o'r disgyblion yn arbennig o fewn y dosbarthiadau ac yn ystod amser egwyl a chinio.

O ystyried eu hoed, mae aelodau o'r Sgwad Syniadau, a'r Grŵp Bysedd Gwyrdd yn weithgar iawn yn yr ysgol ac yn cynrychioli barn y disgyblion yn dda. Maent wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar faterion megis iechyd, amgylchedd yr ysgol, adnoddau i ddisgyblion a chyd berthnasedd â'i gilydd. Roedd pob aelod yn glir iawn o beth oedd eu cyfrifoldebau ac yn cyflawni eu rolau'n gyfrifol iawn.

Erbyn diwedd blwyddyn 1, gall mwyafrif o'r disgyblion adfyfrio'n ddoeth ar eu dysgu eu hunain, gan ddechrau dangos ymwybyddiaeth dda o safon eu gwaith a'r hyn sydd angen ei wneud i wella. Erbyn diwedd blwyddyn 2, mae llawer o'r disgyblion, wedi datblygu'r medrau yma yn dda iawn ac yn barod iawn i gyfrannu wrth gynllunio meini prawf llwyddiant ac unedau o waith.

Mae'r cyfraddau presenoldeb o bron 95%, yn dda ac yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Rhagorol

Profiadau dysgu: Rhagorol

Darperir cwricwlwm eang a chytbwys sy'n llwyr ymateb a gofynion y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol. Mae'r profiadau dysgu ysgogol yn ennyn diddordeb yr ystod lawn o allu yn arbennig o lwyddiannus. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio yn effeithiol iawn i gynllunio gwaith manwl, dychmygus a diddorol.

Mae'r defnydd o hanes chwarel y Penrhyn a chwedl Gelert yn cael eu defnyddio yn gelfydd iawn i sicrhau profiadau dysgu o ansawdd uchel. Cynigir ystod eang iawn o weithgareddau allgyrsiol a digwyddiadau cymunedol i gyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Rhoddir pwyslais arbennig ar ddatblygiad y medrau allweddol ym mhob maes dysgu i sicrhau parhad a dilyniant i'r holl ddisgyblion gan herio'r disgyblion uwch eu gallu yn hynod o lwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn ardderchog.

Darperir profiadau gwerthfawr a chreadigol iawn tu fewn a thu allan i'r dosbarthiadau i hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Addysgu: Rhagorol

Mae ansawdd yr addysgu o safon uchel iawn. Mae'r gwersi'n cael eu cynllunio'n drylwyr gydag amcanion dysgu clir. Ceir defnydd celfydd o amrywiaeth o ddulliau addysgu sydd yn ysgogi'r holl ddisgyblion i weithio'n gynyddol annibynnol ar weithgareddau diddorol. Mae hyn yn hynod o lwyddiannus ar draws yr ysgol.

Mae pob un o'r athrawon a'r cymorthyddion yn cwestiynu'r disgyblion yn arbennig o gelfydd er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth a datblygu eu medrau meddwl a chyfathrebu. Maent yn modelu iaith o safon uchel yn gyson yn y dosbarthiadau.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn meddu ar wybodaeth ardderchog o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn o bob disgybl. Mae perthynas weithio arbennig o dda i weld ym mhob dosbarth. Gweithiant â'i gilydd yn effeithiol iawn i hyrwyddo'r ymddygiad rhagorol a welir.

Mae'r athrawon i gyd yn cynnwys elfennau effeithiol iawn o asesu ar gyfer dysgu yn eu gwersi. Mae adborth llafar gwerthfawr a sylwadau adeiladol yn llyfrau'r disgyblion yn mynegi yn glir yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Rhoddir cyfleoedd da a chyson i'r disgyblion gyfrannu at eu targedau unigol.

Mae pob athro yn tracio cynnydd a pherfformiad y disgyblion yn fanwl er mwyn gosod targedau heriol ar gyfer gwelliant.

Mae adroddiadau'r ysgol i rieni yn gynhwysfawr a defnyddiol dros ben. Gwerthfawrogir y rhain yn fawr gan y rhieni.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r ysgol yn rhoi gofal, cymorth ac arweiniad arbennig o dda i'r holl ddisgyblion. Caiff pwysigrwydd sut a pham i gadw'n iach ei hyrwyddo'n llwyddiannus ac mae'r Sgwad Syniadau yn enghraifft arloesol a blaengar ar sut i gynnwys disgyblion ifanc yn yr agwedd hon o fywyd yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwranddo ar bryderon yn rhagorol. Enghraifft dda iawn o hyn yw sgiliau medrus y Bydis Buarth wrth ofalu am blant iau.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd helaeth o arbenigedd asiantaethau fel yr heddlu, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r cyd berthynas yma yn sicrhau cefnogaeth gynnar ac effeithiol iawn pan fo angen.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn sicrhau cymorth ardderchog i ddiwallu anghenion unigolion. Gwneir defnydd effeithiol iawn o wybodaeth asesu barhaus a phrofion sgiliau sylfaenol i adnabod disgyblion sydd angen cymorth cynnar fel eu bod yn cael cefnogaeth o safon uchel iawn. Mae cynlluniau addysg unigol o ansawdd da ac fe'u hadolygir yn rheolaidd gyda disgyblion a rhieni.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer gwella presenoldeb yn llwyddiannus iawn.

Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol

Mae ethos yr ysgol yn gosod awyrgylch croesawgar a hapus dros ben. Mae'n gymuned gynhwysol, lle caiff disgyblion i gyd hawl cyfartal i holl feysydd o ddarpariaeth yr ysgol. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Ceir ystod eang ac amrywiol o adnoddau o ansawdd da i ymateb i anghenion dysgu'r disgyblion. Gwneir defnydd llawn o adnoddau perthnasol a'r adnoddau sydd ar gael yn y gymuned i ychwanegu a chyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Mae'r amgylchedd ddysgu o ansawdd uchel iawn. Mae'r adeilad yn cynnig dosbarthiadau pwrpasol ar gyfer y nifer o blant. Ceir arddangosfeydd diddorol a symbylol ar draws yr ysgol i gydnabod a dathlu llwyddiannau'r disgyblion.

Mae'r adeilad a'r cyfleusterau allanol yn ddiogel ac fe'u cynhelir yn dda iawn.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Rhagorol
--	-----------------

Arweinyddiaeth: Rhagorol

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol iawn. Mae hyn yn sicrhau bod gan yr ysgol synnwyr clir o gyfeiriad a diwylliant sy'n ymdrechu am welliant. Mae'n sicrhau bod pob agwedd a blaengaredd o fywyd yr ysgol yn cael dylanwad clir a phositif ar y safonau a gyflawnir gan y disgyblion. Caiff rolau a chyfrifoldebau eu diffinio'n glir ac maent yn gweddu'n dda iawn i ofynion yr ysgol. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n glir iawn ar y broses gwella'r ysgol ac yn arwain at bwyntiau gweithredu i wella arfer. Adolygant benderfyniadau a wnaed yn flaenorol yn aml, i adnabod cynnydd.

Mae rheoli perfformiad yn effeithiol iawn ac yn cyfrannu'n sylweddol i'r addysgu sydd o safon uchel a thuag at wella'r safonau'r disgyblion. Mae'r amcanion ar gyfer gwella yn cyd-fynd yn dda iawn â'r cynlluniau gwella ysgol-gyfan, anghenion datblygu unigol a datblygu medrau arweinyddiaeth. Mae trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer staff cymorth hefyd yn dda iawn. Gwneir defnydd arbennig o ddata perfformiad i ddadansoddi canlyniadau a thueddiadau ac i gynllunio'n strategol ar gyfer gwella.

Mae'r corff llywodraethol yn darparu cefnogaeth effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o'r modd y mae'r ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r llywodraethwyr yn ymwybodol o'r materion sy'n codi o ddadansoddi data ac o adroddiad hunan arfarnu'r ysgol. Maent yn rheolaidd yn defnyddio'r wybodaeth i herio'r ysgol mewn meysydd y mae angen gwella'n bellach.

Rhoddir sylw da iawn ac ar adegau arloesol i weithredu blaenoriaethau sirol a chenedlaethol. Mae'r staff yn myfyrio'n ofalus ar eu harferion ac yn barod iawn i dderbyn syniadau ac yn chwilio'n gyson am ffyrdd newydd ac arloesol o wella'r ddarpariaeth. Mae'r datblygiadau hyn wedi cael effaith fuddiol iawn ar wella addysgu a dysgu. Mae 'Llais y plentyn' yn cael lle amlwg ac yn agwedd ardderchog o fywyd yr ysgol. Esiampl wych o hyn, sefydlwyd ar gais y plant, yw'r hyfforddiant i ddisgyblion blwyddyn 2 i hyfforddi disgyblion iau ar weithgareddau amser chwarae.

Gwella ansawdd: Rhagorol

Mae'r ysgol yn gwybod yn dda iawn am ei pherfformiad ei hun. Mae'r trefniadau hunan arfarnu yn ardderchog ac yn rhan reolaidd o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r broses yn gynhwysfawr ac yn arbennig o drylwyr. Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn dangos ymrwymiad llwyr i safonau uchel. Defnyddir ystod dda iawn o weithgareddau monitro gan gynnwys dadansoddi data, arsylwi gwersi a chraffu ar waith y disgyblion. Mae gwranddo ar lais y dysgwyr yn elfen gref iawn yn y broses, ac fe ystyrir eu sylwadau ynghyd â rhai'r rhieni o ddifrif. Gwneir defnydd da o sylwadau ymgynghorwyr ac athrawon ymgynghorol i gefnogi gwaith yr ysgol i godi safonau.

Mae blaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau. Gosodir targedau meintiol, heriol a champau gweithredu manwl sy'n cynnwys dangosyddion llwyddiant ac amserlenni addas ar gyfer eu cwblhau. Serch hynny, nid yw'r cysylltiad rhwng canfyddiadau'r broses hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella deilliannau bob amser yn amlwg.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gref iawn. Ceir gweithdrefnau arbennig o dda ar gyfer cefnogi datblygiad proffesiynol holl aelodau'r staff. Mae'r arfer rheolaidd o fyfyrio ar eu harfer eu hunain ac o arfarnu'r effaith ar ddysgu a lles disgyblion yn nodwedd arbennig o'r ysgol. Mae ymrwymiad blaenllaw athrawon gyda sawl cymuned ddysgu yn fodd effeithiol iawn o ddatblygu dulliau arloesol ar gyfer dysgu ac addysgu.

Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau strategol sy'n cyfrannu'n effeithiol iawn at ansawdd y ddarpariaeth ac at y safonau y mae'r disgyblion yn eu cyflawni.

Mae'r bartneriaeth gref gyda'r rhieni yn cyfrannu'n effeithiol iawn at wireddu nodau'r ysgol. Mae nifer fawr o rieni'n cyfrannu tuag at amrywiaeth o weithgareddau. Nodwedd arbennig o'r bartneriaeth yw'r nifer o gyrsiau a gyflwynir i'r rhieni yn flynyddol sy'n gyfrwng rhagorol i sefydlu perthynas gadarn ac ymglymu'r rhieni yn y broses o gynnal a gwella safonau.

Mae cysylltiadau niferus iawn â'r gymuned leol ac mae hyn yn cael dylanwad helaeth ar y profiadau dysgu'r disgyblion a'u hymwybyddiaeth o'u cymuned a phwysigrwydd cyfrannu iddi.

Mae cydweithio a chynllunio effeithiol iawn rhwng yr ysgol a'r ysgol iau leol lle trosglwyddir y disgyblion yn saith oed. Mae'r berthynas glos yma yn helpu i sicrhau

bod disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn y cyfnod nesaf o'u haddysg. Yn ogystal, mae'r trefniadau pontio yn hyrwyddo trosglwyddo hwylus a hyderus. Mae ymateb y rhieni i'r cynlluniau trosglwyddo yn gadarnhaol iawn.

Mae cysylltiad cryf iawn gydag ysgolion cynradd eraill yn yr ardal. Mae'r ysgol yn flaenllaw yn y broses o gymedroli a chyd safoni asesiadau diwedd cyfnod allweddol. Mae'r rhwydwaith penaethiaid, drwy rannu adnoddau ac arbenigeddau, wedi cael effaith dda iawn ar safon polisiau, iechyd a diogelwch a gwella ansawdd hunan arfarnu'r ysgol. Mae ymweliadau cyson rhwng yr ysgolion lleol wedi bod yn fodd effeithiol iawn o gyfnewid arferion da.

Ceir cysylltiadau adeiladol gyda busnesau lleol a sefydliadau addysg uwch. Enghraifft arloesol o'r agwedd hon yw'r cydweithio effeithiol gyda'r Brifysgol leol i arfogi rhieni i feithrin sgiliau emosiynol cynnar eu plant.

Rheoli adnoddau: Rhagorol

Mae'r pennaeth a staff arall yn rheoli'r holl adnoddau yn effeithlon ac effeithiol iawn i gefnogi gwella dysgu. Maent yn sicrhau lefel uchel o staffio i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol ac yn sicrhau bod y staff yn gwneud y defnydd gorau bosib o'u hamser, harbenigedd a'u profiad. Rhennir arbenigedd yn effeithiol iawn ac mae cyfraniad y cymorthyddion dysgu at sicrhau cynnydd mewn safonau'r disgyblion o dan eu gofal yn arbennig.

Darperir hyfforddiant o safon uchel iawn i bob aelod o'r staff ac i rieni sy'n cefnogi'r addysgu er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth orau posibl ar gyfer yr holl ddisgyblion. Caiff effaith yr hyfforddiant ar gyflawniad disgyblion ei adolygu'n gyson a thrwyadl.

Mae parodrwydd yr ysgol i rannu adnoddau ac arbenigedd â phartneriaid yn gryfder ac yn arwain at well deilliannau ar gyfer y disgyblion. Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n dda iawn â blaenoriaethau ar gyfer gwella a lles disgyblion.

Mae adeilad a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda iawn. Mae holl aelodau'r staff yn llwyddo i greu awyrgylch deniadol ac ysgogol ymhob dosbarth ac ardal ddysgu.

Oherwydd hyn, a gan fod y disgyblion yn cyflawni deilliannau o safon uchel iawn mae'r ysgol yn rhoi gwerth rhagorol am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol mewn perthynas â'r lefel disgwylidig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, i ddisgyblion saith mlwydd oed (y dangosydd pwnc craidd), yn uwch na chyfartaledd ysgolion yn yr un teulu a chyfartaledd Cymru.

Mae hyn yn gosod yr ysgol ymysg y 50% uchaf o ysgolion tebyg o ran y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim ym mhob blwyddyn yn ystod y cyfnod. Yn 2010 a 2011, roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% uchaf.

Mae'r canlyniadau ar gyfer llefaredd, darllen ac ysgrifennu yn gyson uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu ac ysgolion Cymru. Yn 2011 mae'r canlyniadau ar gyfer darllen ac ysgrifennu gyda'r uchaf yn y teulu.

Mae'r ganran sy'n cyrraedd tu hwnt i'r lefel ddisgwylidig yn 2011 yng nghyfnod allweddol 1 yn uwch na'r teulu a Chymru ym mhob pwnc. Yn y Gymraeg a mathemateg mae gyda'r uchaf yn y teulu. Dros y pedair blynedd diwethaf mae'r ganran sy'n cyflawni'r lefel uwch wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd ysgolion yn yr un teulu a chyfartaledd Cymru ym mhob pwnc. Mae'r ganran wedi codi yn sylweddol yn y Gymraeg a mathemateg dros y cyfnod. Mae'r ganran sy'n cyflawni'r lefel uwch yng ngwyddoniaeth wedi gostwng ers 2009.

O gymharu, dros y pedair blynedd diwethaf, canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch yn y Gymraeg gydag ysgolion tebyg o ran y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim mae'n gyson ymysg y 25% uchaf yng Nghymru. Bu'r ganran sy'n cyrraedd y lefel uwch ym mathemateg ymhlith y 25% uchaf mewn tair o'r blynyddoedd hyn ac yng ngwyddoniaeth hefyd mewn dwy ohonynt.

Mae'r bwlch rhwng cyflawniad disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim â'u cyfoedion wedi lleihau'n sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn 2011 nid oedd gwahaniaeth rhwng cyflawniadau'r disgyblion hyn. Yn gyffredinol nid oes patrwm arwyddocaol rhwng canlyniadau merched a bechgyn er bod mwy o ferched o uwch allu wedi cyflawni'r lefel uwch yn y Gymraeg yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae craffu ar waith disgyblion a thystiolaeth o arsylwadau ystafell ddosbarth yn cefnogi'r barnau hyn yn llawn.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Nifer o ymatebion: 47

Mae bob un rhiant yn cytuno'n gryf neu'n cytuno fod yr ysgol yn:

- cael ei rhedeg yn dda;
- darparu amrywiaeth dda o weithgareddau.
- helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb; a
- rhoi cymorth ychwanegol priodol mewn; perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.

Mae bob un rhiant yn cytuno'n gryf neu'n cytuno fod eu plentyn yn:

- hoffi'r ysgol;
- cael cymorth i ymgartrefu'n dda wrth ddechrau yn yr ysgol;
- gwneud cynnydd da;
- cael ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- ddiogel yn yr ysgol; a
- cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Mae bob un rhiant yn cytuno'n gryf neu'n cytuno fod:

- yr addysgu'n dda;
- y disgyblion yn ymddwyn yn dda;
- staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau;
- gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol; a
- staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.

Mae bob un rhiant yn cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod yn:

- cael gwybodaeth gyson am gynnydd ei phlentyn;
- teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem; a
- deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Gan fod hon yn ysgol fabanod, nid oedd unrhyw holiaduron oddi wrth y disgyblion.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Mervyn Lloyd Jones	Arolygydd Cofnodol
Goronwy Morris	Arolygydd Tîm
Gwynoro Jones	Arolygydd Lleyg
Siwan Tecwyn Jones	Arolygydd Cymheiriaid
Sioned Hywel Thomas	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Cwricwlwm Cenedlaethol

Lefelau disgwylidig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.